



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro  
Cardiff and Vale  
University Health Board



Llunio ein  
**Llesiant**  
i'r Dyfodol

# Strategaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hyd at 2035

Byw'n Dda, Gofalu'n Dda, Gweithio Gyda'n Gilydd





# Cynnwys

---

<b>Cynnwys</b>	<b>2</b>
<b>Cyflwyno ein Strategaeth</b>	<b>4</b>
<b>Amdanom Ni</b>	<b>4</b>
<b>Ein ystadegau allweddol yn 2022/2023</b>	<b>6</b>
<b>Profiad pobl o'n gwasanaethau</b>	<b>7</b>
<b>Ein Pobl</b>	<b>9</b>
<b>Lleoedd rydym yn darparu ein gwasanaethau</b>	<b>10</b>
<b>Ymchwil ac Arloesi</b>	<b>11</b>
<b>Ein gweledigaeth ar gyfer 2035</b>	<b>12</b>
<b>Ein Gwerthoedd</b>	<b>13</b>
<b>Ein Hamcanion Strategol</b>	<b>14</b>
<b>Cyflawni'r strategaeth – sut byddwn yn gweithredu</b>	<b>22</b>
<b>Cyflawni'r strategaeth – yr hyn a wnawn</b>	<b>24</b>

# Rhagair

Mae'r strategaeth hon yn nodi Gweledigaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwella iechyd a lles y poblogaethau rydym yn eu gwasanaethu erbyn 2035. Mae gennym amseroedd heriol o'n blaenau, ond rydym yn hyderus y gallwn, drwy fynd i'r afael â'r heriau hyn gyda'n gilydd, gefnogi pobl i fyw bywydau iachach a lleihau'r gwahaniaethau annheg o ran cyffredinrwydd salwch a chanlyniadau iechyd a welwn yn ein cymunedau heddiw. Rydym yn anelu at roi gofal a thriniaeth ragorol i bobl pan fydd ei angen arnynt, yn lle mae ei angen arnynt; gofal sy'n cymharu'n dda â'r gorau yn y byd, ond i wneud hynny, mae angen i ni drawsnewid sut rydym yn darparu gwasanaethau dros y degawd nesaf a thu hwnt.

Yn ogystal â darparu gofal iechyd i gymunedau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg, rydym yn darparu ystod eang o wasanaethau arbenigol iawn i boblogaeth de Cymru a thu hwnt. Mae rôl y Bwrdd Iechyd mewn ymchwil ac arloesi yn golygu ein bod ar flaen y gad o ran datblygiadau mewn technoleg a thriniaethau gofal iechyd sy'n newid yn gyflym y ffordd y mae gofal iechyd yn cael ei ddarparu. Gan weithio gyda'n partneriaid ymchwil, rydym yn gosod nodau uchelgeisiol ar gyfer ehangu'r ymchwil a wnawn, gwella hygyrchedd i dreialon clinigol a therapïau uwch fel ein bod gyda'n gilydd yn parhau i ddod o hyd i atebion i'r heriau iechyd sy'n ein hwynebu heddiw ac i'r dyfodol yn ogystal â gwella canlyniadau gofal a thriniaethau.

Bob dydd rydym yn falch ohonynt ac yn wylaidd ger bron y bobl wych sy'n gweithio ar draws y Bwrdd Iechyd ac mewn sefydliadau partner. Bob dydd, mae ein cydweithwyr yn mynd yr ail filltir i roi'r cyfle gorau i bobl fyw yn iach, gan roi'r gofal a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt gyda charedigrwydd a thosturi. Rydym am fod yn lle gwych i weithio, lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u grymuso i wneud penderfyniadau a fydd yn gwella gwasanaethau a gofal cleifion, ac sy'n cael yr hyfforddiant a'r datblygiad sydd eu hangen arnynt i wella'n barhaus.

Ers i ni ddatblygu strategaeth Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol gyntaf y Bwrdd Iechyd yn ôl yn 2013, mae llawer wedi newid. Rydym wedi ymateb i'r pandemig ac wedi dysgu ohono, ochr yn ochr ag effeithiau cynyddol weledol newid yn yr hinsawdd, mae anghydraddoldebau iechyd wedi dyfnhau ac mae'r cyfle a welwyd unwaith fel rhywbeth yn y dyfodol, o ran y cyfle y byddai triniaethau ac ymyriadau newydd yn gallu eu cynnig, yn dod yn realiti yn gyflym iawn. Rydym yn ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol i ymateb i'r heriau hyn yn ogystal ag addasu'n gyflym a manteisio ar gyfleoedd newydd i wella llesiant cenedlaethau i ddod. Fe wnaethon ni gwblhau'r strategaeth hon wrth i ni ddathlu 75 mlynedd ers sefydlu'r GIG. Wedi'i eni yng Nghymru, mae'r GIG wedi achub a thrawsnewid cannoedd o filoedd o fywydau, gan flaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gael effaith mor gadarnhaol, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ganolbwyntio mwy ar atal ac arloesi a dysgu a gwella'r hyn a wnawn yn barhaus wrth i ni fuddsoddi yn ein seilwaith a'n pobl. Mae'r ymrwymiad hwn bellach wedi'i ymgorffori yn ein blaenoriaethau strategol newydd:

- **Rhoi pobl yn gyntaf**
- **Darparu ansawdd rhagorol**
- **Cyflawni yn y manau cywir**
- **Gweithredu ar gyfer y dyfodol**

Hoffem ddiolch i bawb, ein holl gydweithwyr, cleifion, dinasyddion, partneriaid a rhanddeiliaid sydd wedi ein helpu i ddatblygu'r strategaeth hon trwy gymryd rhan yn y digwyddiadau ymgysylltu niferus a gynhaliwyd gennym a chynnig adborth trwy'r arolygon. Rydym wedi gwrandao ar yr hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthym sy'n bwysig i chi ac yn gobeithio y byddwch chi'n gweld hyn yn cael ei adlewyrchu yn y strategaeth newydd hon.



**Suzanne Rankin**  
Prif Swyddog Gweithredol



**Charles Janczewski**  
Cadeirydd

# Cyflwyno ein Strategaeth

Mae'r strategaeth hon yn rhoi disgrifiad ar lefel uchel i ni o'r hyn yr ydym am ei gyflawni erbyn 2035 a'r amcanion strategol y byddwn yn canolbwyntio arnynt i'n cael ni yno, ynghyd â'r cerrig milltir allweddol y byddwn yn anelu at eu cyrraedd dros bum mlynedd a deng mlynedd i gyflawni blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd. Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar strategaeth Siapio Ein Llesiant yn y Dyfodol 2015 - 2025, a ddatblygwyd yn 2013 ac mae'n adlewyrchu ei hegwyddorion sylfaenol - 'cartref yn gyntaf, grymuso pobl, canlyniadau sy'n bwysig i bobl a lleihau niwed, gwastraff ac amrywiadau' - sydd wedi ein gwasanaethu'n dda dros y degawd diwethaf.



# Amdanom Ni

Mae ein prif gyfrifoldebau fel Bwrdd Iechyd yn ddeublyg:

*Yn gyntaf, rydym yma i helpu pobl i fyw'n dda - o gael dechrau iach mewn bywyd hyd at gynnal iechyd mewn blynyddoedd diweddarach.*

*Yn ail, rydym yma i ddarparu gofal a thriniaeth ardderchog i bobl sydd angen gwasanaethau gofal iechyd i gadw'n iach neu adfer i wella ac i heneiddio a byw'n dda hyd y diwedd.*

Mae hyn yn cynnwys iechyd corfforol a meddyliol, ac o atal hyd at wasanaethau sylfaenol a chymunedol lle rydym yn anelu at ddarparu gwasanaethau'n ddi-dor gyda chydweithwyr gofal cymdeithasol a'r sector gwirfoddol; a gwasanaethau ysbyty aciwt ac arbenigol ar gyfer diagnosteg, gofal brys ac argyfwng a gweithdrefnau gofal wedi'u cynllunio. Mae rôl hanfodol y Bwrdd Iechyd wrth ddarparu dros 100 o wasanaethau arbenigol iawn i bobl o bob rhan o dde Cymru a thu hwnt yn ganolog i lesiant poblogaeth Cymru. Rydym yn Fwrdd Iechyd Prifysgol sy'n weithgar iawn o ran ymchwil, sy'n darparu tua 50% o'r ymchwil a wneir ledled Cymru. Rydym hefyd yn un o'r cyflogwyr mwyaf yn y rhanbarth ac yn hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr gofal iechyd proffesiynol - o brentisiaid a gweithwyr cymorth gofal iechyd i wyddonwyr, nyrsys, deintyddion, meddygon a therapyddion gofal iechyd - gan weithio gyda phartneriaid addysg uwch ac addysg bellach i wneud hynny.

Mae ein gwasanaethau wedi'u lleoli ym mhrifddinas Cymru, Caerdydd, sydd â phoblogaeth fwy amrywiol nag unrhyw ran arall o Gymru, a Bro Morgannwg sydd â mwy o amrywiad rhwng cymunedau trefol a mwy gwledig.

*Rydym ni yma i helpu pobl i fyw'n dda*




## Ein ystadegau allweddol yn 2022/2023


Cefnogodd  
**gwasanaethau  
mamolaeth** y bwrdd  
iechyd enedigaeth  
**5,220** o fabanod



Mynychodd  
**147,449** o bobl  
**adran achosion  
brys** y Bwrdd  
lechyd



Cynhaliwyd **71,394** o  
**driniaethau ysbyty  
wedi'u cynllunio**  
gennym – **65%** wedi ei  
gwneud fel **achosion dydd**



Fe wnaethom  
ddarparu **669,346**  
**o apwyntiadau  
cleifion allanol**



**106** fferyllfa gymunedol ar  
draws Caerdydd a'r Fro, gyda  
**104** yn gymwys i ddarparu  
**Gwasanaethau Fferylliaeth  
Gymunedol Glinigol**.  
Darparwyd **7,374** o  
**ymgyngoriadau** trwy'r  
gwasanaethau hyn yn ystod  
2022/23.



Darperir **Gwasanaethau Meddygol  
Cyffredinol Gofal Sylfaenol  
(Gwasanaethau Meddygon Teulu)**  
o 57 o feddygfeydd ledled Caerdydd  
a'r Fro i boblogaeth gofrestredig o  
**534,756**. Mae cyfanswm o **954**  
staff yn darparu'r rolau canlynol –  
**Meddygon Teulu, Nyrsys yn y  
Gymuned, rolau Gofal Cleifion  
Uniongyrchol a Gweinyddol, a  
rolau clerigol a chymorth eraill.**

**63** practis optometreg  
cymunedol ar draws Caerdydd  
a'r Fro, gyda thua **213** o  
**Optometryddion** a oedd yn  
darparu gwasanaethau'r GIG i  
oddeutu **191,278** o gleifion  
yn ystod 2022/23.



**66** Practis Deintyddol  
Cyffredinol  
ar draws Caerdydd a'r Fro, gyda thua  
**300** o **Ddeintyddion** sy'n darparu  
triniaeth i oddeutu **144,000**  
o gleifion ac thua **31,000** o  
**gleifion newydd** yn ystod 2022/23.



## Profiad pobl o'n gwasanaethau

Roedd **95%** o bobl yn teimlo'n ddiogel yng ngofal y bwrdd iechyd a  
bod staff y bwrdd iechyd yn garedig a gofalgar.  
Pan ofynnwyd 'Yn gyffredinol, sut oedd eich profiad o wasanaeth y Bwrdd  
lechyd' Dwedodd **89%** o'r ymatebwyr 'da iawn neu'n dda' \*



(\*data a gasglwyd dros gyfnod o 8 mis)




**Mae anghydraddoldebau tra amlwg mewn iechyd yn ein cymunedau**

**Gweithlu sy'n cynnwys cydweithwyr o bob cwr o'r byd**

## Ein Pobl

Ar 31 Mai 2023, roedd y Bwrdd Iechyd yn cyflogi 17,232 o staff, gyda 1,000 arall o gydweithwyr yn cael eu cyflogi yn ein meddygfeydd. Mae 76% o'n gweithlu yn fenywod ac mae 24% o'n gweithlu yn ddynion ac yn cynnwys cydweithwyr o bob cwr o'r byd.

Proffil oedran staff y Bwrdd Iechyd yn 2023



Rydym ymhlith 100 cyflogwr cynhwysol LHDTTC+ gorau Stonewall am yr ail flwyddyn yn olynol. Rydym hefyd yn cael ein rhestru fel yr 80fed cyflogwr LHDTTC+ mwyaf cynhwysol yn y Deyrnas Gyfunol gan yr elusen.

Mae gan y Bwrdd Iechyd statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd (Lefel 3) fel rhan o gynllun y llywodraeth.

Mae gennym gyfrifoldeb am wella a diogelu iechyd bron i 500,000 o drigolion Caerdydd a Bro Morgannwg. Er bod llawer o bobl yn ein hardal yn iach, mae gwahaniaethau annerbyniol o ran canlyniadau iechyd rhwng cymunedau. Mae pobl yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig yn marw tua 9 mlynedd ynghynt na phobl yn ein hardaloedd lleiaf difreintiedig.



# Lleoedd rydym yn darparu ein gwasanaethau

Darperir gwasanaethau gofal sylfaenol gan 57 meddygfa; 106 fferyllfa gymunedol; 63 practis optometreg a 66 practis deintyddol. Rydym hefyd yn gweithio gyda sefydliadau partner a chymunedau i wella iechyd ac atal salwch.

Mae Gwasanaethau Ysbyty yng Nghaerdydd yn cael eu darparu yn:

- Ysbyty Athrofaol Cymru (YAC/UHW)
- Ysbyty Deintyddol y Brifysgol (YDB) – yn YAC
- Ysbyty Plant Cymru – yn YAC
- Ysbyty Cymunedol Dewi Sant
- Ysbyty Brenhinol Caerdydd (YBC/CRI) – (sail nid cleifion mewnol mewnol)

Mae gwasanaethau ysbyty ym Mro Morgannwg yn cael eu darparu yn:


- Ysbyty Athrofaol Llandochoau (YALI/UHL) sy'n cynnwys Uned Iechyd Meddwl Hafan y Coed
- Ysbyty Cymunedol y Barri



# Ymchwil ac Arloesi

Yn ystod blwyddyn ariannol 22-23:

- Cymeradwyodd BIPCF **171 o astudiaethau ymchwil newydd**
- **Recriwtiwyd 6743 o gleifion anfasnachol a 329 o gleifion masnachol = cyfanswm o 7072**  
Dros 7000 o gleifion am yr ail flwyddyn yn olynol.
- **Roedd y cleifion anfasnachol yn cynrychioli 37%** o'r holl recriwtio anfasnachol yng Nghymru.
- **Roedd y recriwtio masnachol yn cynrychioli 42%** o'r holl gleifion masnachol yng Nghymru.
- **Cynhyrchwyd £2.4 miliwn o gronfeydd masnachol**



# Ein gweledigaeth ar gyfer 2035

Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn helpu i wella bywydau fel bod pobl erbyn 2035 yn iachach a bod gwahaniaethau annheg o ran canlyniadau iechyd yn cael eu lleihau. Bydd y gofal rydym yn ei ddarparu i bobl sydd angen ein gwasanaethau a'r rheiny sy'n darparu'r gwasanaethau yn rhagorol, gyda chanlyniadau a phrofiadau i bawb sy'n cymharu'n dda â'r sefydliadau cymheiriaid sy'n perfformio orau.

Dylai pawb gael y cyfle gorau posibl i fyw bywyd iach a boddhaus – lle mae'r gwahaniaethau annheg mewn canlyniadau iechyd, sy'n effeithio ar ddisgwyliad oes, yn cael eu lleihau. Byddwn yn cyflawni hyn drwy weithio gyda chymunedau lleol a phartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fynd i'r afael â'r materion sy'n achosi salwch y

gellir ei atal a marwolaethau cynamserol.

Rydym hefyd yn anelu at ddarparu gofal iechyd rhagorol, lle mae'r canlyniadau'n adlewyrchu ein bod yn Fwrdd Iechyd Prifysgol sy'n weithgar iawn o ran ymchwil ac yn debyg i sefydliadau cymheiriaid sy'n perfformio'n dda. Byddwn yn mesur ein perfformiad yn erbyn sefydliadau gofal iechyd sydd fel ni o ran maint a chymhlethdod gwasanaethau, addysgu ac ymchwil y Bwrdd Iechyd, ar lefel y Deyrnas Gyfunol ac yn rhyngwladol.

Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, rydym wedi datblygu ein hamcanion strategol – nodau llesiant y Bwrdd Iechyd – sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i ymgorffori'r egwyddorion cynaliadwyedd a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd i'w cyflawni.

## Nodau Llesiant



## Ffyrdd o Weithio

- Hirdymor**  
Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.
- Atal**  
Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethgu helpu cyrrf cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
- Integreiddio**  
Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrrf cyhoeddus eraill.
- Cydweithio**  
Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.
- Cynnwys**  
Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

# Ein Gwerthoedd

Rydym yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan werthoedd a bydd ein nodau yn cael eu gwireddu dim ond os yw ein gwerthoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Wedi'u creu gan gydweithwyr, cleifion a'u teuluoedd a'u gofalwyr, ein gwerthoedd yw:

- Rydym yn **garedig ac yn ofalgar**
- Rydym yn **barchus**
- Rydym yn **meddu ymddiriedaeth a gonestrwydd**
- Rydym yn **cymryd cyfrifoldeb personol**

Gan fyw yn ôl y gwerthoedd hyn bob dydd, byddwn yn creu'r diwylliant sydd ei angen i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn parhau i gydweithio a gwrandao ar gydweithwyr, cleifion a phartneriaid i sicrhau bod ymddygiadau yn adlewyrchu'r gwerthoedd hyn a bod pobl yn hyderus i herio eraill yn briodol pan nad yw ymddygiadau yn cyd-fynd â'n gwerthoedd.

*Mae ein gwerthoedd wrth wraidd popeth a wnawn*





# Ein Hamcanion Strategol

Rydym wedi gosod pedwar amcan strategol, a bydd eu cyflawni yn ein galluogi i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer gwell iechyd a gofal rhagorol. Y rhain yw:



Rhoi Pobl yn Gyntaf



Darparu Ansawdd Rhagorol



Cyflawni yn y Mannau Iawn



Gweithredu dros y Dyfodol



## Rhoi Pobl yn Gyntaf

Byddwn yn lle gwych i hyfforddi, gweithio a byw ynddo, lle rydym yn gwrandao ar bobl a'u grymuso i fyw bywydau iach. Erbyn 2035, byddai cydweithwyr yn ein hargymell fel lle gwych i weithio, bydd ein gweithlu'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau a bydd mwy o bobl yn byw bywydau iachach.

Mae pobl wrth wraidd popeth a wnawn. Fel cyflogwr mawr i bobl leol a darparwr ystod eang o wasanaethau gofal iechyd, ein nod yw denu a chadw'r bobl orau; pobl sy'n cynnal ein gwerthoedd, yn ymdrechu i wella gwasanaethau'n barhaus ac yn datblygu eu sgiliau'n barhaus. Byddwn hefyd yn sicrhau bod ein gweithlu'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a bod cydweithwyr yn cael eu cefnogi i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg.



Mae pobl sy'n cael eu cefnogi i fyw'n iach, wedi'u galluogi gan amgylcheddau iach a chefnogol, yn allweddol i gyflawni gweledigaeth y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn golygu bod gan bawb yr wybodaeth, y cyfle a'r gefnogaeth i ymddwyn yn iach ar bob cam o'u bywyd – o gael dechrau da adeg eu geni ac yn ystod plentyndod, i fyw'n dda fel oedolyn ac wrth i ni fynd yn hŷn – a gwybod ble y gallant ddod o hyd i gymorth a chefnogaeth pan fydd ei angen arnynt.




Blaenoriaethau	Cerrig Milltir Allweddol	
	2027	2035
Bydd pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu datblygu, eu cefnogi ac wedi ymgysylltu.	Bydd yr arolwg staff cenedlaethol yn dangos gwell sgôr ymgysylltu, gyda mwy o staff yn cymryd rhan yn yr arolwg staff a gweithgareddau ymgysylltu eraill.  Byddwn yn cyflawni sgôr ymgysylltu â'r gweithlu o 4.0 (mynegai cenedlaethol – y sgôr uchaf 5).  Bydd 50% o'n cydweithwyr yn cymryd rhan yn yr arolwg staff Cenedlaethol.  Bydd dangosyddion allweddol y gweithlu fel yr amlygwyd yn y cynllun Pobl a Diwylliant yn cael eu bodloni e.e.: Cyfradd trosiant o dan 10%, Arfarniadau seiliedig ar werthoedd rhwng 75% -85%, Salwch yn llai na 6%.	Bydd lefelau uwch o ymgysylltu yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad sefydliadol, boddhad cleifion a chanlyniadau cleifion.  Bydd ein sgôr ymgysylltu â'r gweithlu yn 4.5 neu'n uwch (mynegai cenedlaethol – y sgôr uchaf 5).  Bydd 70% o'n cydweithwyr yn cymryd rhan yn yr arolwg staff Cenedlaethol.  Bydd dangosyddion allweddol y gweithlu fel yr amlygwyd yn y cynllun Pobl a Diwylliant yn cael eu bodloni e.e.: Cyfradd trosiant rhwng 7-9%, Arfarniadau seiliedig ar werthoedd yn fwy nag 85% Salwch yn llai na 5%.
Bydd gennym ddiwylliant cynhwysol, lle bydd amrywiaeth pobl y Bwrdd Iechyd yn cynrychioli poblogaethau lleol y Bwrdd Iechyd.	Bydd cynlluniau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod proffil ein gweithlu yn dod yn fwy cynrychioliadol o broffil demograffig poblogaeth Caerdydd a'r Fro.  Byddwn yn cynyddu'n gallu sefydliadol i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg drwy gynyddu nifer y swyddi Cymraeg Hanfodol yn unol â'r angen, ac i gynyddu nifer y staff sydd â Lefelau Sgiliau Iaith Gymraeg 2 - 5 25%.	Bydd y gweithlu'n adlewyrchu proffil demograffig poblogaeth Caerdydd a'r Fro fel y nodir yng nghyfrifiad 2031, ar bob lefel o swydd.  Byddwn yn gyflogwr cynhwysol o ddewis ac yn gallu cynnig gofal Cymraeg fel dewis gweithredol.  Byddwn yn cynyddu nifer y staff yn y Cyngor sydd â sgiliau Cymraeg 2 - 5 65%.
Trwy ein rhaglen integredig gwella iechyd poblogaeth, byddwn yn galluogi ac yn grymuso pobl i fyw bywydau iach a lleihau eu risg o salwch.	Bydd Disgwyliad Oes i ddynion yn codi i 79.6 oed ac i fenywod i 84 oed.	Bydd Disgwyliad Oes i ddynion yn codi i 80.5 oed ac ar gyfer menywod i 85 oed.



## Darparu Ansawdd Rhagorol

Byddwn yn darparu gwasanaethau rhagorol sy'n deg, yn amserol ac yn ddiogel, lle mae pobl yn cael eu trin â charedigrwydd ac yn cael eu cefnogi i gyflawni'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt. Byddwn wedi lleihau anghydraddoldebau o ran atal, gwell mynediad at wasanaethau clinigol a chanlyniadau clinigol.

Er mwyn sicrhau gofal rhagorol, byddwn yn sicrhau bod mynediad at wasanaethau yn adlewyrchu anghenion pobl fel ein bod yn lleihau nifer y blynyddoedd y bydd pobl yn byw mewn iechyd gwael a marwolaeth gynamserol y gellir ei atal, gan ganolbwyntio'n ddi-baid ar leihau'r anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli yn ein cymunedau a rhyngddynt. Yn 2023, mae'r bwlch mewn disgwyliad oes rhwng ein cymunedau lleiaf a mwyaf difreintiedig yn wyth mlynedd i fenywod a naw mlynedd i ddynion, ffigurau sydd wedi bod yn cynyddu dros y degawd diwethaf. O ran blynyddoedd o fywyd iach, mae'r bwlch wedi bod yn weddol sefydlog ar 18 mlynedd i fenywod ac 14 i ddynion.



Mae un o bob 4 o bobl yn profi salwch meddwl yn ystod eu bywydau ac mae gormod o bobl ifanc heb gael y cymorth sydd ei angen arnynt yn ddigon cynnar ar gyfer eu lles meddyliol. Byddwn yn gwneud mwy i helpu pobl i fyw'n dda ac atal afiechyd, darparu cymorth ac ymyrryd yn gynnar pan fydd angen o ran iechyd yn codi, gan roi diagnosis cyflym a darparu'r driniaeth gywir sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a mesur y

canlyniadau ar gyfer pob claf. Byddwn yn olrhain dangosyddion allweddol sy'n edrych ar degwch ar draws ymddygiadau iach a gwasanaethau ataliol, mynediad at wasanaethau clinigol, a chanlyniadau iechyd. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid ym maes gofal cymdeithasol a thai, y trydydd sector a chydweithwyr ehangach y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddarparu gofal integredig i bobl gartref ac yn y gymuned fel eu bod yn cael eu cefnogi i fyw mor annibynnol â phosibl ac i reoli eu cyflwr eu hunain lle y gallant ac i gael diwedd oes sydd wedi'i gynllunio ac yn urddasol.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn darparu gofal ysbyty pan mai dyma'r opsiwn gorau i gleifion a'n nod yw darparu gofal rhagorol sy'n amserol, yn ddiogel ac yn cael ei ddarparu gyda charedigrwydd a thosturi.

Blaenoriaethau	Cerrig Milltir Allweddol	
	2027	2035
Canolbwyntio ar leihau annhegwch o ran ymddygiadau iach, gwasanaethau ataliol, mynediad at wasanaethau clinigol, a chanlyniadau iechyd, i leihau gwahaniaethau annheg ac anghyfiawn presennol a brofir gan bobl yng nghymunedau'r Bwrdd Iechyd.	Byddwn yn gweld gostyngiad mewn annhegwch a welir yn nifer y dangosyddion ar draws gwasanaethau ataliol ymddygiadau iach, mynediad at wasanaethau clinigol, a chanlyniadau iechyd. Bydd y duedd hanesyddol lle gwelir y bwlch anghydraddoldeb mewn disgwyliad oes yn lledu yn cael ei atal ar gyfer dynion a menywod, gyda'r bwlch yn parhau i fod yn 9.3 blwyddyn i ddynion ac 8.3 blwyddyn i fenywod.*	Byddwn yn gweld gostyngiad pellach yn yr annhegwch a welir ym mhob dangosydd ar draws gwasanaethau ataliol ymddygiadau iach, mynediad at wasanaethau clinigol, a chanlyniadau iechyd. Bydd y duedd hanesyddol lle gwelir y bwlch anghydraddoldeb mewn disgwyliad oes yn lledu yn cael ei atal ar gyfer dynion a menywod, gyda'r bwlch yn parhau i fod yn 9.3 blwyddyn i ddynion ac 8.3 blwyddyn i fenywod.*
Darparu ansawdd rhagorol o ran gofal bob tro - gofal sydd wedi'i bersonoli, yn amserol, yn ddiogel, yn hygyrch ac yn effeithiol - o'r gofal mwyaf cymhleth ar gyfer y rhai mwyaf difrifol wael hyd at ofal arferol sy'n atal ac yn diogelu rhag afiechyd a chlefydau - gan fynd i'r afael ag anghenion iechyd corfforol a meddyliol.  Sicrhau'r canlyniadau gorau i gleifion yn unol â'r hyn sydd bwysicaf iddynt, eu teuluoedd a'u gofalwyr.	Rydym yn bwriadu bod ymhlith y 25% uchaf o ddarparwyr gofal iechyd tebyg yn y Deyrnas Gyfunol ar gyfer dangosyddion ansawdd allweddol, gan gynnwys profiad cleifion, niwed y gellir ei osgoi a marwolaeth.	Ein nod yw bod yn y 10% uchaf ar gyfer dangosyddion ansawdd allweddol, gan gynnwys profiad cleifion, niwed y gellir ei osgoi a marwolaeth.
Datblygu ymagwedd y Bwrdd Iechyd tuag at ansawdd parhaus er mwyn gwella a gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r Bwrdd Iechyd - pobl, asedau (adeiladau ac offer) ac arian.	Byddwn yn cynyddu cyfran adnoddau'r Bwrdd Iechyd i gefnogi pobl i fyw bywydau iach, i leihau'r risg o salwch ac i gynyddu'r gwasanaethau a ddarperir yn y gymuned.	Byddwn yn cynyddu ymhellach gyfran adnoddau'r Bwrdd Iechyd i gefnogi pobl i fyw bywydau iach, i leihau'r risg o salwch ac i gynyddu'r gwasanaethau a ddarperir yn y gymuned.

\* Mae hyn yn erbyn cefndir o fwlch disgwyliad oes sy'n cynyddu'n hanesyddol ledled y Deyrnas Gyfunol. Er mai nod y Bwrdd Iechyd yw dechrau lleihau'r bwlch hwn, bydd hyn yn cymryd amser ac mae angen canolbwyntio ar lefel llywodraethau San Steffan a Chymru, ochr yn ochr â gweithio mewn partneriaeth ranbarthol, i fynd i'r afael â phenderfyniadau ehangach iechyd fel cyflogaeth a thai. Dros y 10 mlynedd nesaf byddwn yn dilyn basged o ddangosyddion 'proses' a fydd yn nodi a ydym yn dechrau culhau'r bwlch o ran y gwasanaethau yr ydym yn gyfrifol amdanynt, a fydd yn cyfrannu at y nod hirdymor ehangach.

## Cyflawni yn y Mannau Iawn

**Erbyn 2035 byddwn yn defnyddio data integredig amser real i lywio penderfyniadau ar y cyd a gweithio mewn tîm amlddisgyblaethol, gan roi mynediad a pherchnogaeth i bobl dros eu data i'w galluogi i reoli eu hiechyd a'u llesiant. Byddwn eisoes ar ein taith i ddarparu gofal yn y man iawn, mewn cyfleusterau sy'n addas i'r diben, sy'n hyblyg ac yn hyrwyddo adferiad.**

Rydym yn gwybod bod ansawdd yr amgylcheddau yr ydym yn darparu gofal ynddynt yn gwneud gwahaniaeth i brofiad a chanlyniadau cleifion. Nid yw llawer o'n cyfleusterau yn addas i'r diben ac rydym yn gwybod bod amgylcheddau o ansawdd gwaeth yn arwain at ganlyniadau a phrofiad gwaeth i gleifion a'n cydweithwyr. Er mwyn darparu gofal rhagorol, mae angen i ni ddarparu gwasanaethau yn y man iawn i ddiwallu anghenion unigolyn mewn cyfleusterau sy'n addas i'r diben.



Bydd hyn yn cynnwys gofalu am bobl gartref gan ddefnyddio technoleg i fonitro iechyd a chael mynediad at y cymorth sydd ei angen, gan alluogi pobl i reoli eu gofal eu hunain. Byddwn yn darparu cymaint ag y gallwn yn lleol fel y gall pobl gael gafael ar gyngor, gofal a chymorth yn eu cymuned leol, lle byddwn yn cydleoeli gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd gyda'r rhai a ddarperir gan ein hawdurdod lleol a phartneriaid yn y trydydd sector, mewn

hybiau cymunedol. Pan fydd angen gofal ysbyty, bydd ein hamgylcheddau gofal yn sicrhau'r profiad ac adferiad gorau posib i gleifion ac yn darparu'r cyfleusterau y mae ein cydweithwyr eu hangen ar gyfer eu llesiant.

Bydd ein hysbytai yn 'ysbytai digidol' lle mae systemau iechyd a gofal wedi'u cysylltu'n llawn ar draws llwybr y claf. Byddwn yn cynllunio cyfleusterau ysbyty aciwt newydd i fod yn 'ysbytai clyfar' sy'n cyfuno data cleifion ac amgylcheddol i alluogi'r defnydd o'r holl ddata sydd ar gael ar draws taith gyfan y claf i ddarparu gwasanaethau mewn ffyrdd hynod effeithlon. Bydd y cyfleusterau angenrheidiol gennym ar gyfer ymchwil, addysgu a hyfforddiant o ansawdd uchel, ac sy'n hwyluso cydweithio â phartneriaid academaidd a diwydiant i ddatblygu a mabwysiadu pethau arloesol ym maes gofal iechyd. Bydd systemau digidol a data'r Bwrdd Iechyd yn cael eu hintegreiddio ac yn darparu data amser real i lywio penderfyniadau ar y cyd rhwng y claf, ei deulu a'i ofalwyr a'r tîm amlddisgyblaethol, ac i ddarparu'r dimnadaethau sydd eu hangen ar gyfer ymchwil a rheoli a chynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.

Blaenoriaethau	Cerrig Milltir Allweddol	
	2027	2035
Cyrraedd aeddfedrwydd digidol sy'n galluogi gweithlu, partneriaid, cleifion y Bwrdd Iechyd a'r cyhoedd i gysylltu a chyfathrebu, gan gefnogi gwneud penderfyniadau ar y cyd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd.	Bydd gennym system iechyd a gofal wedi'i digideiddio gyda chofnodion gofal integredig yn cefnogi gwneud penderfyniadau a chynllunio gwasanaethau mewn amser real, a byddwn wedi cyflawni 50% o'r map ffordd digidol (lefel 3 y model gofal iechyd aeddfedrwydd digidol).	Bydd gennym amgylchedd cwbl ddi-bapur gydag atebion digidol sy'n cefnogi taith gyfan y claf o'r dechrau i'r diwedd, sy'n rhychwantu pob lleoliad gofal, gan gynnwys gofal gartref. Cyflawni'r map ffordd digidol cyfan yn llawn, gan sicrhau aeddfedrwydd digidol llawn ar draws holl wasanaethau'r Bwrdd Iechyd. Bydd data amgylcheddol a data cleifion yn cael eu cyfuno i ddarparu safleoedd gofal iechyd a alluogir yn ddigidol.
Adnewyddu a chyflwyno rhaglen y Bwrdd Iechyd (Llunio Ein Llesiant yn y Dyfodol yn y Gymuned) ar gyfer creu cyfleusterau iechyd a gofal integredig yn ein cymunedau lleol lle gall pobl gael gafael ar yr wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt o dan yr un to.	Bydd Rhaglen Achos Busnes y Bwrdd Iechyd wedi'i ddiweddarw wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a bydd cam nesaf y datblygiad wedi'i gwblhau. Bydd gan 50% o boblogaeth Caerdydd a'r Fro fynediad at wasanaethau o hyb llesiant integredig.	Bydd gan 80% o boblogaeth Caerdydd a'r Fro fynediad at wasanaethau o hyb llesiant integredig.
Gyda phartneriaid Prifysgol Caerdydd a'r GIG, byddwn yn datblygu cynlluniau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau bod ysbytai sy'n darparu gofal aciwt yn addas ar gyfer y dyfodol (Llunio Ysbytai Ein Dyfodol).  Datblygu mwy o seilwaith a rennir gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i gael y gwerth gorau ar gyfer buddsoddiad y Bwrdd Iechyd e.e., Canolfan Genomeg Cymru fel rhan o Gampws Gwyddor Bywyd ac Iechyd Rhanbarthol Cardiff Edge, canolfannau rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau diagnostig a gweithdrefnau anghymhleth wedi'u cynllunio.	Bydd cynlluniau'r Bwrdd Iechyd wedi eu datblygu'n sylweddol i ddisodli neu ailddatblygu Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Athrofaol Llandochoau fel ein bod yn darparu 'ysbytai clyfar' sy'n ein galluogi i gyflawni ein cynllun Llunio ein Gwasanaethau Clinigol yn y Dyfodol. Byddwn yn cydweithio â phartneriaid i wireddu Parc Iechyd Llantrisant a chanolfannau rhanbarthol eraill ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, gan gynnwys canolfannau diagnostig. Gyda'n partneriaid - y GIG, prifysgolion a diwydiant - byddwn yn datblygu Cyfleusterau Gwyddorau Iechyd. Bydd Canolfan Genomeg Cymru Gyfan ym Mharc Gwyddor Bywyd Cardiff Edge ar agor.	Byddwn yn comisiynu Ysbyty Athrofaol newydd/wedi ei ailddatblygu i Gymru ac wedi symud ymlaen â chynlluniau'r Bwrdd Iechyd i ailddatblygu Ysbyty Athrofaol Llandochoau.  Bydd holl gyfleusterau'r Bwrdd Iechyd yn bodloni safonau sefydliadau achredu.  Byddwn wedi cyflawni mewn cydweithrediad â'n partneriaid cenedlaethol/rhanbarthol wasanaethau patholeg a rennir.  Bydd Parc Gwyddorau Bywyd Cardiff Edge yn sefydliad partner angor gweithredol.

Bydd yr uchod yn dibynnu ar achosion busnes a fydd yn amodol ar gymeradwyaeth a chyllid Llywodraeth Cymru.



## Gweithredu dros y Dyfodol

Byddwn yn gweithio i sicrhau nad yw'r hyn a wnawn heddiw yn peryglu llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Byddwn yn diogelu'r amgylchedd ac yn datblygu ac yn defnyddio technolegau, triniaethau a thechnegau newydd i ddarparu'r canlyniadau iechyd gorau posibl a gofal iechyd cynaliadwy i'r dyfodol. Erbyn 2030 byddwn wedi lleihau ôl troed carbon y Bwrdd Iechyd 34% (sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd) a byddwn wedi cynyddu ein gweithgareddau ymchwil ac arloesi clinigol.

Fel sefydliadau gofal iechyd eraill, mae gennym ôl troed carbon mawr – sy'n cyfateb i holl aelwydydd y Barri. Byddwn yn cymryd camau brys i leihau allyriadau carbon y Bwrdd Iechyd a diogelu'r amgylchedd, gan greu a hyrwyddo manau gwyrdd sy'n cefnogi byw'n iach a theithio llesol a chynaliadwy.



Mae gweithredu ar gyfer y dyfodol hefyd yn golygu sicrhau ein bod yn parhau i fod ar flaen y gad o ran datblygiadau mewn gofal iechyd trwy gydweithio â phartneriaid prifysgol a diwydiant i gyflymu datblygiad a mabwysiadu triniaethau newydd, cynyddu gweithgareddau ymchwil ac arloesi clinigol er budd gwell canlyniadau i gleifion a gofal iechyd cynaliadwy. Byddwn hefyd yn defnyddio adnoddau a phŵer prynu sylweddol y Bwrdd Iechyd er budd yr economi leol yn ne Cymru, gan greu swyddi gwerth uchel, cefnogi busnesau lleol a denu mewnfuddsoddiad ac, fel sefydliad angor mawr, cyfrannu at dwf economaidd yn y rhanbarth.



Fel darparwr gwasanaethau arbenigol iawn, bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i ddatblygu a darparu triniaethau newydd sy'n hyrwyddo gofal iechyd ac yn cyfrannu at y canlyniadau gorau i gleifion. Mae ein hymchwil yn cefnogi darparu gofal rhagorol, gyda mwy o bobl yn cymryd rhan mewn treialon ar gyfer triniaethau a thechnolegau newydd.

Blaenoriaethau	Cerrig Milltir Allweddol	
	2027	2035
Datblygu ac ehangu portffolios ymchwil, addysgu ac arloesi y Bwrdd Iechyd mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd a phartneriaid eraill.	Byddwn yn anelu at gynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y canlynol:  a) nifer y treialon clinigol sydd ar agor a  b) nifer y cleifion cymwys sy'n cymryd rhan  Bydd Canolfan Ymchwil Canser Caerdydd yn cael ei sefydlu.	Byddwn yn cyflawni cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y canlynol:  a) nifer y treialon clinigol sydd ar agor a  b) nifer y cleifion cymwys sy'n cymryd rhan
Cyfrannu at ddatblygu a mabwysiadu triniaethau, technegau a thechnolegau arloesol a newydd lle maent yn cyflawni gwell canlyniadau i gleifion a gwell gwerth.	Mae gan bob claf cymwys fynediad at therapiau datblygedig a ddiffinnir yng Nghlanllawiau Polisi Cymru.	Byddwn yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer darparu therapiau uwch sy'n bodloni'r holl safonau achredu.  Bydd pob claf cymwys yn derbyn gofal therapi uwch o fewn amserlenni safonol cenedlaethol.
Gwneud y mwyaf gyfraniad y Bwrdd Iechyd i'r economi sylfaenol.	Byddwn yn darparu mwy o gyfleoedd i gymunedau lleol sicrhau contractau neu gyflogaeth i gyfrannu at gynllunio a chyflawni ein gwasanaethau. Trwy ein cyfraniad i'r sector Diwydiannau Iechyd Dynol, byddwn yn gweld cynnydd o 1.5% o leiaf yn ei Werth Ychwanegol Gros (GVA) ar gyfer Rhanbarth Caerdydd a'r Fro.	Byddwn yn ehangu cyfleoedd ymhellach i gymunedau lleol sicrhau contractau neu gyflogaeth i gyfrannu at gynllunio a darparu ein gwasanaethau.  Trwy ein cyfraniad i'r sector Diwydiannau Iechyd Dynol, byddwn yn gweld cynnydd o 3% o leiaf yn ei Werth Ychwanegol Gros (GVA) ar gyfer Rhanbarth Caerdydd a'r Fro.
Cyflawni targedau allyriadau carbon y Bwrdd Iechyd a chefnogi teithio llesol a chynaliadwy yn llawn i staff ac ymwelwyr â chleifion. Hyrwyddo, gwobrwyo a gwreiddio lleihau gwastraff yn llwyddiannus fel rhan o'n rhaglen ansawdd o welliant parhaus.	Byddwn yn parhau i anelu at gyflawni'r targedau i gyflawni ein lleihad allyriadau carbon (y targed ar hyn o bryd yw 34%) a chefnogi teithio llesol a chynaliadwy i staff ac ymwelwyr â chleifion.  Ar gyfer allyriadau yr ydym yn eu rheoli'n uniongyrchol, ein huchelgais yw cyrraedd gostyngiad o 40%.	Ein nod yw sicrhau statws carbon niwtral erbyn 2035.  Ar gyfer allyriadau yr ydym yn eu rheoli'n uniongyrchol, ein huchelgais yw cyrraedd gostyngiad o 68%.

Bydd yr uchod yn dibynnu ar achosion busnes a fydd yn amodol ar gymeradwyaeth a chyllid Llywodraeth Cymru.

## Cyflawni'r strategaeth – sut byddwn yn gweithredu

Er mwyn cyflawni ein strategaeth byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n **gyfranogol**. Mae hyn yn golygu galluogi a grymuso pobl i fod yn rhan o lunio ein cynlluniau a chymryd rôl weithredol yn eu gofal a'u iechyd fel partneriaid cyfartal. Bydd cydgynhyrchu wrth wraidd sut rydym yn gwella ein gwasanaethau a byddwn yn gweithredu ar adborth rheolaidd ac amserol gan y rhai sy'n defnyddio ac yn darparu ein gwasanaethau.

Byddwn yn mynd ati i geisio cyfranogiad ein partneriaid wrth gynllunio a darparu gwasanaethau – mae hyn yn cynnwys pawb sy'n gweithio yn y Bwrdd Iechyd, partneriaid y GIG, awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector, a phartneriaid prifysgol. Byddwn yn cymryd rhan effeithiol yn y partneriaethau ffurfiol yr ydym yn aelodau ohonynt – Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a Bro Morgannwg (BGCau) a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro

Morgannwg, ein partneriaethau cynllunio a darparu gwasanaethau rhanbarthol (byrddau iechyd De-ddwyrain Cymru ac, ar gyfer gwasanaethau trydyddol ac arbenigol, ein partneriaeth â Bwrdd Iechyd Bae Abertawe), Partneriaeth Prifysgol Caerdydd, a phartneriaethau comisiynu cydweithredol fel Comisiynydd Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (WHSSC).

Bydd **Atal** wrth wraidd ein llwybrau gofal; atal salwch yn y lle cyntaf, ymyrryd yn gynnar a mynd i'r afael â dirywiad y gellir ei atal pan geir diagnosis o gyflwr iechyd. Byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n rhagweld anghenion pobl, gan ddefnyddio data amser real integredig i gynllunio a darparu cynlluniau gofal iechyd a thriniaeth **personol** ar gyfer y teulu cyfan, a defnyddio deallusrwydd yn gywir i **ddarogan** newid yn y galw i'n helpu i gynllunio a rheoli ein gwasanaethau yn y dyfodol.



Ymagwedd **cyfranogol** at gyflawni ein strategaeth. Galluogi a grymuso pobl i gymryd rhan



Bydd **Atal** wrth wraidd ein llwybrau gofal; atal salwch yn y lle cyntaf



Gofal iechyd a thriniaeth **personol** ar gyfer y teulu cyfan. Gweithio i ragweld anghenion pobl



**Darogan** newid yn y galw i'n helpu i gynllunio a rheoli ein gwasanaethau yn y dyfodol



**Grymuso  
pobl i fod  
yn rhan o  
lunio ein  
cynlluniau**

# Cyflawni'r strategaeth – yr hyn a wnawn

Mae'r strategaeth hon yn nodi ein huchelgeisiau lefel uchel a'n blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwireddu ein gweledigaeth. I gefnogi'r gwaith o'i chyflawni fe fydd cyfres o raglenni cyflawni strategol a chynlluniau ategol, gyda chynlluniau cyflawni mwy manwl un-i-dair blynedd a fydd yn cael eu hadnewyddu bob blwyddyn i sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu haddasu yng ngoleuni unrhyw newidiadau sydd eu hangen.

<b>Strategaeth Trefniadaeth</b> <i>10 Blwyddyn</i>	<b>Y PAM</b> Yn disgrifio'r problemau strategol rydym yn ceisio eu datrys a'n hymateb: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ein gweledigaeth</li> <li>• Ein gwerthoedd</li> <li>• Ein hamcanion strategol</li> </ul>
<b>Rhaglenni Strategol</b> <i>5-10 mlynedd</i>	<b>Y BETH</b> <b>Ein glasbrint</b> - y cynlluniau strategol sy'n disgrifio ein model gwasanaeth yn y dyfodol a'r cerrig milltir mawr y mae angen i ni eu cyrraedd dros y cyfnod ar gyfer ein gwasanaethau clinigol, ein hystadau a'n cyfleusterau, ein systemau digidol a'n gweithlu.
<b>Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI)</b> <i>Treigl 3 Blynedd</i>	<b>Y SUT</b> <b>Ein cynllun tactegol</b> - yn disgrifio sut fyddwn yn alinio ein hadnoddau i gyflawni'r strategaeth a'r cynlluniau strategol a'r cerrig milltir tra'n parhau i ymateb i flaenoriaethau, cyfleoedd a risgiau sy'n dod i'r amlwg.
<b>Cynlluniau Cyflawni</b> <i>Bob blwyddyn</i>	<b>Y CYFLAWNI</b> Cynlluniau clwstwr, Cynlluniau Traws-Glwstwr, Cynlluniau Bwrdd Clinigol, Cynlluniau Swyddogaeth Gorfforaethol. Cynlluniau gweithredu gronynnog manwl lle mae timau, adrannau, rhwydweithiau yn disgrifio eu cyfraniad at flaenoriaethau'r CTCI a'n hamcanion strategol.

Er mwyn olrhain cynnydd, byddwn yn datblygu cyfres o ddangosyddion allweddol, gan ddisgrifio'r man cychwyn a'r cerrig milltir ar gyfer gwella. Byddwn yn sicrhau bod pawb, ble bynnag maen nhw'n gweithio – yn ein wardiau cymdogaeth a wardiau'r ysbytai, o dimau rheng flaen i'r Bwrdd – yn glir ar sut rydyn ni i gyd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a gwireddu ein gweledigaeth. Byddwn yn adolygu'r strategaeth hanner ffordd drwyddi ac yn gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i aros ar y trywydd iawn i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer gwell iechyd a chanlyniadau gwell.

**Ein gweledigaeth ar gyfer gwell iechyd a chanlyniadau gwell**



**Tara Rees**  
**Nyrs y Flwyddyn RCN Cymru 2023**





**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Caerdydd a'r Fro  
Cardiff and Vale  
University Health Board



Llunio ein  
**Llesiant**  
i'r Dyfodol